Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu

Cofnodion Mehefin 2018

Dyddiad	21 Mehefin 2018	**Cadeirydd**	Lee Jones (Pennaeth Staff y Comisiynydd)	**Man Cyfarfod**	Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr
Y rhai a fu'n bresennol	**Tîm y Comisiynydd:** Lee Jones (LJ), Hannah Evans-Price (HEP), Hannah Jenkins-Jones (HJJ), Jacqueline Trow (JT) Heddlu De Cymru: Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Lewis (RL), Arolygydd Scott Lloyd (SL), Debbie Nugent - Gwasanaethau Dysgu a Datblygu (DN), Prif Arolygydd John Wainwright (JW) **Aelodau'r grŵp:** Steve Bartley - cynrychiolydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (SB), Alex Drummond - seicotherapydd annibynnol (AD), Claire Spiller - Cyngor Ffoaduriaid Cymru (CS), Hannah Wharf - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (HW), Bethan Davies - Prifysgol Caerdydd (BD).				

Crynodeb o'r Trafodaethau

1. Croeso a Chyflwyniadau

Diolchodd LJ i'r aelodau am ddod i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau oddi wrth sefydliadau nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Esboniodd LJ bwysigrwydd casglu safbwyntiau'r grŵp a'r bobl roeddent yn gweithio gyda nhw mewn cymunedau. Awgrymodd hefyd y gellid sefydlu grwpiau ffocws neu weithdai penodol yn y dyfodol er mwyn casglu safbwyntiau ar bynciau penodol. Ychwanegodd LJ hefyd y gallu i ymestyn a newid yr aelodaeth yn unol â'r pynciau dan sylw yn y cyfarfod.

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol ond gofynnodd CS am i'r rhestr bresenoldeb gael ei newid am nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

2. Camau Gweithredu Blaenorol

Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd y diweddariadau canlynol:

1	Trefnu rhoi diweddariad ar Ymgyrch Signature i'r grŵp mewn cyfarfod yn y dyfodol	**Sarah Mahon**	I'w drefnu ar ddyddiad diweddarach
2	Trefnu cyfraniadau ar iechyd meddwl, trais yn erbyn menywod a merched a Gwasanaethau i Ddioddefwyr â swyddogion arweiniol perthnasol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol yn 2018/19	**Sarah Mahon**	Y cyfraniad ar iechyd meddwl i'w roi ym mis Medi
3	Rhannu ymchwil Stonewall a all roi dealltwriaeth o weithio'n gadarnhaol gyda grwpiau y gellir canfod eu bod yn elyniaethus i'r heddlu.	**Alex Drummond**	Rhoddodd AD y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am rai o ganfyddiadau ymchwil Stonewall, gan gynnwys buddiannau hyfforddiant a nodi cysylltwyr o gymunedau a phwysigrwydd meithrin cynghreiriaid mewn cymunedau. Trafododd AD fuddiannau dylanwadwyr, meithrin cydberthnasau â chymunedau a dealltwriaeth gyffredin, yn ogystal â phwysigrwydd annog arweinwyr cymunedol i raeadru gwybodaeth. AD i anfon unrhyw wybodaeth arall at HJJ.
4	Codi anghysondeb ynglŷn â phrosesau troseddau casineb ymhlith unedau rheoli sylfaenol yn fewnol	**CS Andy Valentine**	Rhoddodd JW y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ar ran AV, gan nodi i archwiliad mewnol o droseddau casineb gael ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Lluniodd yr adran Datblygu Corfforaethol ganfyddiadau a pharatowyd cynllun gweithredu ar waith, a fydd yn cael ei roi ar waith yn ystod y deufis nesaf. Dosbarthwyd hwn i bob rheolwr uned rheoli sylfaenol a Bwrdd Efydd. Gofynnodd LF a fyddai unrhyw werthusiad. Nododd DCC na fu modd i Heddlu De Cymru orfodi hyfforddiant na chynnig cwrs

			gloywi i swyddogion cymaint ag yr hoffai. Nododd DCC y câi hyfforddiant mwy soffistigedig ei gyflwyno y flwyddyn nesaf ar gyfer swyddogion newydd. Nododd DCC hefyd nad yw lefel yr hyfforddiant ar brosesau troseddau casineb yr un fath ym mhob rhan o'r sefyliad, oherwydd nifer o heriau a chyfyngiadau ariannol.
5	Ystyriaeth i'w rhoi i'r ffordd y gellir defnyddio adborth i lywio blaenoriaethau cydraddoldeb yn y dyfodol.	**Heddlu De Cymru a thîm y Comisiynydd**	Esboniodd HJJ ei bod wedi cyfarfod â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Vaughan ynglŷn â'r adolygiad o'r amcanion cydraddoldeb cyfredol a bod hyn wedi cynnwys mewnbwn cyfarfod blaenorol y grŵp. Byddai aelodau'r grŵp yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o amcanion cydraddoldeb a'r ffordd y defnyddiwyd eu sylwadau.

3. Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu – Ymgynghoriad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Esboniodd DN y byddai'r llwybr mynediad yn newid yn genedlaethol i bob unigolyn a oedd yn gobeithio ymuno â'r heddlu fel swyddogion. Esboniodd mai'r gofyniad presennol oedd cwblhau Tystysgrif mewn Gwybodaeth am Blismona cyn gallu gwneud cais i fod yn swyddog. Pe bai rhywun yn llwyddiannus ar y cam recriwtio, yna byddai hyfforddiant am hyd at 15 wythnos.

Rhoddwyd trosolwg o'r tri llwybr arfaethedig newydd i ymgeiswyr, gan gynnwys Prentisiaeth Gradd i Gwnstabliaid yr Heddlu. Byddai'r brentisiaeth yn gymhwyster lefel 6 (lefel gradd) ac wedi'i hariannu gan yr heddlu, i'w chyflwyno gan brifysgol. Byddai pob cwnstabl yr heddlu yn cwblhau cyfnod prawf o dair blynedd. Mae'n rhaid bod pob ymgeisydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol cyn gwneud cais.

Byddai dau o blith y tri llwybr mynediad posibl yn golygu y byddai swyddogion yn rhan o'r heddlu o'r diwrnod cyntaf. Esboniodd DN hefyd y byddai'n rhaid i unrhyw ddarpar ymgeisydd, nad oedd wedi ennill cymhwyster lefel 3, sefyll prawf seicometrig er mwyn cael ei ystyried ar gyfer y broses recriwtio. Roedd yr heddlu wrthi'n cydgysylltu â chwmni allanol i greu'r prawf.

Esboniodd DN fod Asesiadd cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal gan y Gwasanaethau Dysgu a Datblygu, lle y codwyd rhai cwestiynau ynglŷn â'r trefniadau gweithio hyblyg ac a ellid cwblhau'r llwybrau hyn yn rhan amser. Cafodd aelodau'r grŵp eu gwahodd yn awr i fod yn rhan o'r broses honno o asesu'r effaith ar gydraddoldeb a chyflwyno unrhyw sylwadau neu bryderon ynglŷn â'r dull gweithredu newydd o ran nodweddion gwarchodedig.

Cododd AD bryderon y gallai unigolion gael eu hallgáu o'r broses ymgeisio. Er enghraifft, unigolion a oedd wedi cael profiad negyddol mewn addysg. Holodd AD a fyddai proses sgrinio ar gyfer unigolion a allai fod â dyslecsia, awtistiaeth neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, rhag ofn bod angen ystyried anghenion dysgu ychwanegol. Gofynnodd AD hefyd a fyddai'r prawf seicometrig yn cael ei brofi ar swyddogon â gwasanaeth hir er mwyn gweld a fyddai unrhyw un yn methu mewn gwirionedd.

Cydnabu DCC Lewis rai o'r pryderon ynglŷn ag amrywiaeth a'r bobl y gall Heddlu De Cymru eu denu drwy'r dull gweithredu newydd. Cefnogodd yr elfen sgrinio seicometrig i'r rhai heb gymhwyster Lefel 3 drwy atgyfnerthu y byddai'n rhaid i bob ymgeisydd lwyddo yn elfen academaidd cwrs y brentisiaeth, p'un a oedd wedi llwyddo yn yr elfen ymarferol/plisimona ai peidio. Byddai'r broses sgrinio yn fuddiol er mwyn hidlo unigolion na allant o bosibl weithio ar Lefel 6 yn academaidd er mwyn peidio â chreu sefyllfa lle maent yn methu ar gam diweddarach.

Ychwanegodd AD y gall y prawf seicometrig fod yn anodd i rai unigolion a bod canfyddiad weithiau bod plant yn methu yn yr ysgol, ond nad yw eu hanghenion dysgu ychwanegol wedi cael eu diwallu o bosibl yn yr ysgol mewn gwirionedd ac nad yw hyn wedi cael ei ganfod tan yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'n bosibl na fyddai gan bobl o'r fath y cymwysterau angenrheiddiol ac y byddai angen eu cefnogi drwy broses y prawf mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion. Rhoddodd DN sicrwydd i'r grŵp bod y pryderon hyn yn cael eu trafod ar sail Cymru gyfan ac y byddai cyfle i ystyried y materion hyn yn fanwl pan oedd y prawf seicometrig terfynol ar gael. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fwriad hyd yma i dreialu'r prawf gyda swyddogion.

Cafwyd trafodaeth ar y ffordd y gallai'r broses newydd effeithio ar ymgeiswyr BME neu bobl hŷn. Nododd DCC Lewis y byddai Heddlu De Cymru yn anelu at recriwtio 300 o swyddogion yr heddlu y flwyddyn nesaf, 200 y flwyddyn wedyn, a 200 ar ôl y flwyddyn honno. Ychwanegodd y gallai 3-5 mlynedd newid demograffeg yr heddlu a'i bod yn gyfle i sicrhau bod y sefydliad yn fwy cynrychioliadol drwy recriwtio.

Cafwyd teimlad cyffredinol y bydd llai o bobl BME a phobl hŷn yn cael eu denu at y model newydd o bosibl, oherwydd y gofynion o ran cymwysterau, yr amser sydd ei angen i gymhwyso a'r cyflog dechreuol cymharol isel. Gofynnodd aelodau pam y penderfynwyd ar y model cenedlaethol. Nododd HJJ fod problemau eisoes o ran recriwtio unigolion â chefndir BME i'r heddlu. Yn genedlaethol, y gred oedd y gallai'r dull gweithredu newydd annog pobl i feddwl am rôl swyddog yr heddlu fel rôl 'broffesiynol'. Y gred oedd y gallai hyn yn enwedig helpu

unigolion BME i ddewis gyrfa yn yr heddlu gan fod pobl BME yn aml yn cael eu hannog i ymgymryd â rolau proffesiynol gan eu teuluoedd e.e. meddygaeth neu'r gyfraith. Cytunwyd, er mai hon oedd y farn yn genedlaethol, na all y syniad fod yn berthnasol o reidrwydd ym mhob rhan o'r DU. Felly, yn Heddlu De Cymru, roedd ymrwymiad i ddatblygu opsiynau gweithredu cadarnhaol i recriwtio pobl BME.

Holodd HW am grwpiau economaidd-gymdeithasol a chydnabod cymwysterau dramor, a mynediad at waith i geiswyr lloches. Ymatebodd DN drwy ddweud bod angen i bob ymgeisydd gadw at reolau'r Coleg Plismona a chael caniatâd i weithio yn y DU.

Nododd JW y byddai gwaith yn cael ei wneud i estyn allan i gymunedau er mwyn marchnata'r rhaglen. Cyfeiriodd HW at gynllun prentisiaeth Llywodraeth Cymru a'r arferion da a welwyd yn y rhaglen allgymorth wedi'i theilwra. Argymhellwyd y dylid ystyried y cynllun fel cyfeirbwynt ar gyfer denu ymgeiswyr amrywiol.

Holwyd ynghylch opsiynau gweithio hyblyg o dan y model newydd, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer swyddogion sy'n mynd yn feichiog yn ystod y rhaglen tair blynedd neu ddwy flynedd. Cadarnhaodd DN y byddai rheoliadau'r heddlu yn caniatáu i swyddogion yr heddlu ar gyfnod prawf weithio'n rhan amser a chael cyfnod absenoldeb mamolaeth, ond byddai angen cadarnhau sut y byddai hyn yn gweithio a sut y byddai'n effeithio ar drefniadau â'r brifysgol sy'n cyflwyno'r cwrs. Cytunwyd y byddai prosesau cyfathrebu yn bwysig er mwyn peidio â gwneud i bobl fod yn llai parod i wneud cais os nad ydynt yn gwybod pa opsiynau a oedd ar gael.

4. Adolygiad Cymheiriaid Anabledd

Cariwyd ymlaen i'r cyfarfod nesaf oherwydd cyfyngiadau amser.

5. Technoleg Adnabod Wynebau

Esboniodd SL daith Adnabod Wynebau Awtomatig a rhoddodd drosolwg manwl o'r dechnoleg. Defnyddiwyd y dechnoleg i ganfod delweddau drwy gymharu wynebau ag unigolion ar 'rhestr wylio'.

Mae'r dechnoleg yn 'dod o hyd i' gamerâu cylch teledu cyfyng amser byw a ddefnyddir mewn digwyddiadau i dod o hyd i unigolion ar restr wylio bwrpasol sydd wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer y digwyddiad hwnnw. Rhoddwyd enghraifft o arestio cadarnhaol, lle y cafodd unigolyn ei arestio yn ystod rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr ar gais i'w anfon yn ôl i'r carchar.

Defnyddiodd modd 'adnabod' y dechnoleg ddelwedd ddigidol i adnabod unigolyn. Cyfeiriodd SL at enghraifft ddiweddar o'i defnyddio i adnabod dau unigolyn a oedd wedi bod yn rhan o ddamwain. Roedd y teithwyr yn seddi blaen y car wedi marw ac roedd baban 9 mis oed wedi goroesi. Fel arfer, byddai cael manylion y gyrrwr wedi cymryd o leiaf 4 awr ond drwy ddefnyddio 'modd adnabod' y dechnoleg cymerodd tua 20 munud.

Nododd SL fod y dechnoleg wedi cael ei defnyddio 27 o weithiau ac na wnaed unrhyw arestiadau anghywir wrth ei defnyddio. Ar ôl cael rhybudd am gymhariaeth â delwedd, byddai'r gweithredwr yn penderfynu derbyn neu wrthod y rhybudd yn seiliedig ar y delweddau a nodwyd gan y dechnoleg adnabod wynebau awtomatig, gan anfon tîm ymyrryd os oedd angen. Gwelwyd bod y dechnoleg wedi lleihau nifer y troseddau mewn digwyddiadau lle y cafodd ei defnyddio.

Ymgynghorwyd â phartneriaid, y Swyddfa Gartref a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddefnyddio technoleg adnabod wynebau awtomatig. Nid oedd angen cydsyniad i ddefnyddio'r dechnoleg, ac roedd hefyd wedi cael ei chyflwyno i Bwyllgor Moeseg Heddlu De Cymru i ystyried sut yr ymdrinnid â'r wybodaeth a gasglwyd. Nododd SL, oherwydd diddordeb y cyfryngau, ei bod yn bwysig tawelu meddwl y cyhoedd o ran cywirdeb y system. Er enghraifft, yn ystod gemau rhyngwladol rygbi yr hydref cafwyd un canlyniad cadarnhaol ffug o blith 2251 o wynebau a welwyd. Nododd SL, pe bai canlyniad paru cadarnhaol ffug gan y dechnoleg, y byddai unrhyw gamau yn cael eu cymryd ochr yn ochr â'r dystiolaeth a'r gudd-wybodaeth a ddelir gan yr heddlu, ac na fyddai'n dibynnu ar y dechnoleg yn unig. O ganlyniad, anaml iawn y byddai'r heddlu yn siarad â'r person anghywir.

Gofynnodd HW a fyddai'n bosibl rhannu'r data wedi'u gwahanu ar dueddiadau BME y rhai a barwyd. Nododd SL fodd y dechnoleg yn dibynnu ar gyfansoddiad y rhestr wylio (unigolion y rhoddwyd gwarantau yn eu cylch a weithiau oherwydd cudd-wybodaeth). Felly, ni fyddai unrhyw baru â phobl nad oeddent yn y rhestr wylio, felly ni allai'r dechnoleg dargedu pobl yn annheg. Nid oedd unrhyw ddadansoddiad o dueddiadau o ran nodweddion y rhai ar y rhestrau gwylio wedi cael ei wneud hyd yma. Ategodd BD hyn, yn dilyn ei hymchwil i dechnoleg adnabod wynebau awtomatig yn y brifysgol. Roedd yn bosibl y gellid codi'r mater hwn eto yn ddiweddarach. Esboniodd RL nad oedd technoleg adnabod wynebau awtomatig yn fwy deallus nag ymwthiol na theledu cylch cyfyng oni bai bod rhywun ar restr wylio.

Esbonioddd SL y gellid hefyd ddefnyddio'r dechnoleg i helpu i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, e.e. wrth chwilio am bobl oedrannus â dementia, a phobl risg uchel a oedd ar goll (er y byddai angen cydsyniad y teuluoedd dan sylw i wneud hyn ac y byddai angen dileu'r delweddau pan gafwyd hyd i'r unigolyn). Awgrymodd CS y posibilrwydd o gysylltu ag elusennau sy'n chwilio am bobl ar goll a defnyddio hyn i roi negeseuon cadarnhaol i'r cyhoedd am y dechnoleg.

Nododd BD fod gwerthusiad y brifysgol o'r dechnoleg wedi'i gwblhau ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu'n fuan. Cynigiodd RL y cyfle i'r grŵp weld y cyfarpar yn y dyfodol pe dymunai.

Ychwanegodd LJ fod y dechnoleg yn dal i ysgogi sgyrsiau diddorol ac y dylai gael ei rhoi ar yr agenda eto yn y dyfodol, yn enwedig o ran canfyddiadau'r cyhoedd a chyfathrebu â'r cyhoedd. Daeth y drafodaeth i ben drwy gytuno, er bod llawer o gwestiynau yn y cyfryngau ynglŷn â'r hyn a oedd yn gymesur a sut roedd delweddau'n cael eu cadw, fod y dechnoleg yn debygol o gael manteision cadarnhaol a'i bod yn

annhebygol o fod yn fwy ymwthiol mewn gwirionedd na theledu cylch cyfyng na defnyddio technoleg adnabod rhifau ceir yn awtomatig (ANPR) ar y ffyrdd. Ystyriwyd ei bod yn bwysig cadw golwg ar yr ystadegau yn y dyfodol ac ystyried amrywiaeth y bobl ar restrau gwylio.

6. Adroddiad Asesu Strategol

Rhoddodd JW drosolwg o'r adroddiad asesu strategol mwyaf diweddar a oedd yn cynnwys data Heddlu De Cymru. O ran y data ar 'ddefnyddio grym', nodwyd mai'r uned rheoli sylfaenol ddwyreiniol oedd wedi cofnodi'r nifer mwyaf o achosion o ddefnyddio grym. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pham y bu lleihad yn y defnydd o rym o Hydref i Ragfyr a Ionawr i Fawrth. Nododd RL fod swyddogion yn tueddu i dangofnodi ac nad oeddent yn cofnodi defnyddio grym yn gyson ym mhob achos eto. Gofynnodd JT sut y gellid mesur 'camddefnydd o rym'. Nododd RL y byddai'n anodd ei ddiffinio ond mai Heddlu De Cymru oedd â'r nifer lleiaf o gwynion o ran hyn yn y DU gyfan. Byddai data ar ddefnyddio grym yn cael eu cyflwyno eto i'r grŵp tua diwedd y flwyddyn.

Cafwyd ychydig o drafodaeth ar ddata ar stopio a chwilio. Nododd RL fod yr uned rheoli sylfaenol ddwyreiniol wedi ymgymryd â mwy o achosion o stopio a chwilio yn ddiweddar, a hynny am fod mwy o fygythiad ar hyn o bryd oherwydd 'llinellau cyffuriau' a throseddau gan gangiau yng Nghaerdydd, a oedd yn aml yn gofyn am fwy o stopio a chwilio. Dywedwyd wrth y grŵp mai prin oedd y cwynion am stopio a chwilio yn ardal yr heddlu. Byddai ffocws ar y data ar stopio a chwilio yn y cyfarfod nesaf er mwyn codi materion eto a mynd drwy ymarfer hapsamplu tîm y Comisiynydd.

Dywedwyd wrth aelodau'r grŵp ei bod yn orfodol i swyddogion gofnodi achosion o stopio a chwilio â chamerâu fideo a wisgir ar y corff. Roedd yn fanteisiol o ran diogelu unigolion a oedd yn cael eu chwilio yn ogystal â swyddogion. Chwaraeodd RL fideo'r Adran Safonau Proffesiynol o achos diweddar o stopio a chwilio a oedd yn gallu dadbrofi cwyn yn erbyn swyddog. Ystyriodd y grŵp fanteision rhoi'r fideo hwn i Grwpiau Cydlynu Cymunedol.

7. Unrhyw Fusnes Arall

Soniodd JT wrth y grŵp am y gwaith y byddai'n ei wneud i edrych ar hapsampl o gŵynion yn yr Adran Safonau Proffesiynol, gan gynnwys ystyried a oedd cwynion ynglŷn â stopio a chwilio yn cael eu categoreiddio o dan benawdau eraill.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Person Cyfrifol

1	Rhannu ymchwil Stonewall â HJJ, ar ôl cael cadarnhad gan Stonewall.	**Alex Drummond**
2	Rhannu dogfennau lleol a chenedlaethol am brentisiaethau i'r grŵp a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am hynt yr asesiad o effaith prawf seicometrig Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu ar gydraddoldeb.	**Debbie Nugent (Gwasanaethau Dysgu a Datblygu)** Wedi'i gwblhau – anfonodd SM e-bost ar 25/6 yn gofyn am i sylwadau gael eu cyflwyno i'r Gwasanaethau Dysgu a Datblygu. Diweddariad gan Debbie Nugent - Rydym yn aros am y canlyniadau gan Wasanaethau Corfforaethol sy'n dadansoddi'r data o'r broses recriwtio – bydd hyn yn cynnwys y data o ran y prawf seicometrig.
3	Sicrhau bod y rhai sy'n gwneud cais i'r cynllun prentisiaeth newydd yn cael gwybod am yr opsiynau gweithio hyblyg – cael eglurder ynglŷn â'r sefyllfa gan y brifysgol sy'n cyflwyno'r cynllun.	**Debbie Nugent (LDS)** Diweddariad gan Debbie Nugent – Gwasanaethau Dysgu a Datblygu i holi'r SAU er mwyn cadarnhau'r sefyllfa o ran opsiynau 'gweithio hyblyg'. Bu cytundeb yn Heddlu De Cymru na chaiff gweithio 'rhan amser' ei ystyried tan ar ôl y 39 wythnos gyntaf (sy'n cynnwys y chwe mis o hyfforddiant cychwynnol a'r cam tiwtora). Mae Roger a minnau wedi darllen y contract i weld a oes unrhyw beth am 'weithio hyblyg' ond ni allwn weld dim byd?

		Mae cyfarfod cyntaf ein Grŵp Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael ei gynnal ddydd Mercher nesaf (3ydd) a bydd y materion hyn o ran yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn eitem ar yr agenda i'w trafod.
4	Ystyried dichonolrwydd monitro cyfansoddiad y rhestrau gwylio a ddefnyddir ar gyfer technoleg adnabod wynebau awtomtig.	**Yr Arolygydd Scott Lloyd** Rydym eisoes yn sicrhau bod 'cyfansoddiad' y rhestrau gwylio yn cynnwys y rhesymeg dros ddefnyddio'r dechnoleg sy'n cael ei chofnodi cyn defnyddio'r dechnoleg yn yr adroddiad ar ddefnyddio'r dechnoleg. Caiff rhestrau gwylio, gan gynnwys pob delwedd a'r holl wybodaeth bersonol, eu dileu yn union ar ôl defnyddio'r dechnoleg ar hyn o bryd a, sut bynnag, o fewn 24 awr. Yn seiliedig ar drafodaethau diweddar â'r Athro Canatucci sy'n Rapporteur Arbennig gyda'r Cenhedloedd Unedig ar bopeth sy'n ymwneud â phreifatrwydd a moeseg, efallai fod angenrhaid a chyfiawnhad dros gadw gwybodaeth bersonol (h.y. enwau)

		mewn rhestr wylio am gyfnod hwy, ond nid yw hyn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Swyddogion eto.
5	Ystyried cysylltu ag elusennau sy'n chwilio am bobl ar goll er mwyn hyrwyddo'r defnydd cadarnhaol o dechnoleg adnabod wynebau awtomatig	**Yr Arolygydd Scott Lloyd** Nid yw hyn wedi'i wneud eto am fod gan y Prif Gwnstabl Barton (swyddog arweiniol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu dros dechnoleg adnabod wynebau awtomatig) rai amheuon ynglŷn â'r defnydd o'r dechnoleg ar gyfer achosion 'generig' o bobl ar goll. Unwaith eto bydd angen i'r Prif Swyddogion drafod hyn, fwy na thebyg yn y Bwrdd Partneriaeth Strategol ar Adnabod Wynebau Awtomatig a gaiff ei gynnal ar ddiwedd y mis (dyddiad i'w gadarnhau). Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod hwn.